GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth

## Cylchlythyr Hydref 2024



## Cynnwys


**Uchafbwyntiau ein Cynnydd** .......... 1
**Edrych tua'r dyfodol** .......... 4
**Cymryd rhan** .......... 4
**Adborth** .......... 4


# Cyflwyniad



Croeso i Gylchlythyr Hydref 2024, a diolch am ymuno â ni wrth i ni barhau â'n nod i gefnogi'r gweithlu fferylliaeth ledled Cymru. Mae'r diweddariad hwn yn canolbwyntio ar gyflawniadau allweddol ac ar gynnydd y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth, ynghyd â'r hyn sydd ar y gorwel.

Yr Athro Margaret Allan, BPharm (Anrh.) FRPS,
Deon Fferylliaeth

Cadwch mewn cysylltiad â ni:

☞ Gwefan y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth

☞ Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:
Facebook | LinkedIn

# Uchafbwyntiau ein Cynnydd

## Cefnogi Llesiant

Rydym wedi adolygu gallu'r gweithlu fferylliaeth i gael gafael ar adnoddau llesiant. Mae'r Hwb Iechyd a Lles ar wefan AaGIC yn ei gwneud hi'n haws dod o hyd i gymorth pan fydd ei angen arnoch chi, p'un a ydych chi'n rheolwr neu'n aelod o staff.

## Hyrwyddo Gyrfaoedd Fferylliaeth

Rydym yn sicrhau bod gyrfaoedd fferylliaeth yn fwy gweledol, gyda thudalen bwrpasol newydd ar gyfer gyrfaoedd a fydd yn cael ei lansio ar wefan AaGIC erbyn Gwanwyn 2025. Bydd y tudalennau hyn yn rhoi gwybodaeth glir a hygyrch i'r rheini sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa ym maes fferylliaeth yng Nghymru. Mae AaGIC wedi datblygu a chyhoeddi Fframwaith Gyrfaoedd sy'n darparu egwyddorion ac arweiniad ynghylch sut byddwn ni'n arwain yr agenda i ddenu pobl at yrfaoedd ym maes iechyd. Fframwaith Strategol ar gyfer Gyrfaoedd GIG Cymru

## Siapio Swyddi Fferylliaeth y Dyfodol

Mae ein Cymrawd Clinigol yn casglu gwybodaeth gan fyfyrwyr fferylliaeth Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4 a gan fferyllwyr dan hyfforddiant sy'n hyfforddi yng Nghymru, er mwyn cael gwybod beth sy'n gwneud swydd yn ddeniadol i fferyllwyr sydd newydd gymhwyso.

Bydd y prosiect hwn yn canfod beth yw disgwyliadau sylfaenol fferyllwyr sydd newydd gymhwyso, gyda'r canfyddiadau'n cael eu rhannu erbyn Haf 2025 er mwyn helpu cyflogwyr i ddatblygu swyddi deniadol.




## Meithrin Sgiliau Digidol

Rydym yn parhau i hyrwyddo'r adnodd hunanwerthuso rhyngweithiol gan y Fframwaith Galluogrwydd Digidol i helpu'r gweithlu i wella eu sgiliau digidol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: Y Fframwaith Galluogrwydd Digidol – AaGIC.

# Arloesi gyda Thechnoleg


Rydym yn archwilio technolegau ymgolli i wella hyfforddiant fferylliaeth, gyda'r nod o ddarparu profiadau realistig ac ymarferol sy'n paratoi'r gweithlu ar gyfer gwahanol leoliadau gofal iechyd. Drwy roi sylw i unrhyw anghenion addysg a hyfforddiant, rydym yn gobeithio cyfrannu at [adolygiad Llywodraeth Cymru o wasanaethau fferylliaeth mewn ysbytai.](#) Erbyn Haf 2025, rydym yn gobeithio creu cynllun clir ar gyfer ymgorffori'r dechnoleg hon ar draws holl raglenni fferylliaeth AaGIC.



Amgylchedd ymgolli sy'n efelychu uned gofal dwys, yn yr Ystafell Efelychu ar Gampws Singleton Prifysgol Abertawe.

Mae technoleg ymgolli yn rhoi profiadau dysgu ymarferol a realistig i fyfyrwyr. Mae'n bosibl ei haddasu i wahanol rolau a lleoliadau gofal iechyd.

Mae efelychu senarios amrywiol yn gallu helpu i ddatblygu sgiliau, a chreu dealltwriaeth ddyfnach o rôl fferylliaeth mewn timau amlddisgyblaethol ac amgylcheddau gofal.



# Genomeg ym maes Gofal Iechyd

## Y Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Genomeg

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Phartneriaeth Genomeg Cymru (GPW) wedi creu Cynllun Gweithlu Strategol tair blynedd o hyd, sy'n cynnwys 33 cam gweithredu i helpu'r gweithlu i ddefnyddio meddygaeth genomig er budd cleifion a'r boblogaeth. Nod y cynllun, a lansiwyd ar 15 Tachwedd, yw creu gweithlu cynaliadwy a mynd i'r afael â heriau o ran darparu gofal iechyd genomig yng Nghymru.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r [dudalen we](#) ynghylch Genomeg.

## Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffarmacogenomeg

Roedd Cynllun Cyflawni Genomeg Cymru: 2022-2025 yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu gwasanaeth ffarmacogenomeg ar gyfer y GIG, gan ddarparu cynllun i wneud ffarmacogenomeg yn rhan annatod o ymarfer clinigol arferol. Bydd y cynllun cyflawni hwn, sy'n rhedeg dros dair blynedd, yn mynd i'r afael â datblygu gwasanaethau ffarmacogenomeg ar draws gofal cymunedol, sylfaenol ac eilaidd.

Bydd rhagor o fanylion ar gael yn fuan iawn. I gael gwybod y diweddaraf am y cynllun, ewch i [dudalen we](#) Partneriaeth Genomeg Cymru, neu cysylltwch ag NPGG@wales.nhs.uk

## Arweinyddiaeth

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod y cydweithio llwyddiannus rhwng Tîm Arwain y Ddeoniaeth Fferylliaeth a Thîm Arweinyddiaeth Ddigidol AaGIC wedi arwain at lansio'r Hwb Arweinyddiaeth Fferylliaeth. Pwrpas yr adnodd newydd hwn yw helpu gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth ar bob cam o'u gyrfa, p'un a ydych chi'n fferyllydd neu'n dechnegydd fferyllfa. Mae'n darparu adnoddau a gwybodaeth werthfawr i wella sgiliau arwain, gan ganolbwyntio ar arferion arwain tosturiol a chynhwysol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ofal a gwasanaethau cleifion ledled Cymru.

Hoffem ddiolch i'r fferyllwyr a gomisiynwyd gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cymheiriaid Fferylliaeth, a wnaeth gyfraniadau allweddol at y broses o ddatblygu cynnwys y platfform hwn.

Gallwch weld yr Hwb Arweinyddiaeth Fferylliaeth yma: Hwb Arweinyddiaeth Fferylliaeth.

## Cynllunio'r Gweithlu

Mae Prosiect Cymorth Cynllunio'r Gweithlu yn dwyn ynghyd dri cham gweithredu allweddol i wella'r broses o ddatblygu'r gweithlu fferylliaeth:

1. Datblygu Pecyn Cymorth a Chanllawiau Cynllunio Swyddi
2. Mapio Swyddi Fferylliaeth i Fframweithiau Gyrfa Cenedlaethol
3. Datblygu Sgiliau Cynllunio'r Gweithlu

Mae Tîm Strategaeth Gweithlu AaGIC wedi lansio casgliad o adnoddau ac offer cynllunio'r gweithlu sydd o ddiddordeb i'r maes fferylliaeth. Rydym yn annog arweinwyr fferylliaeth ym mhob sector ac arbenigedd i ddechrau defnyddio'r adnoddau hyn fel cam cyntaf tuag at ddatblygu sgiliau cynllunio'r gweithlu.

Mae'r storfa i'w gweld yma: Storfa - Ytydysgu AaGIC

I gefnogi'r gwaith o gyflwyno cymwyseddau yn y gweithlu fferylliaeth, mae tîm y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth wedi mapio cwricwla'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ar gyfer ymarfer ar lefel Sylfaen Ôl-gofrestru, Uwch ac Ymgynghorydd yn unol â'r chwe phroffil swydd ar gyfer fferyllwyr yn y GIG. Mae cynigion i gynnwys cymwyseddau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol fel meini prawf 'hanfodol' neu 'a argymhellir' ym manylebau swyddi fferyllwyr y GIG wedi cael eu derbyn i'w hystyried gan Fwrdd Ymgynghorol Fferylliaeth AaGIC a Grŵp Cyfarwyddwyr Cymheiriaid Fferylliaeth.

Arweiniodd gwaith pellach at gynigion sy'n disgrifio sut gellir dosrannu amser fferyllwyr ar draws y gwahanol 'golofnau ymarfer' i ddarparu gwasanaethau o safon a sicrhau'r cymwyseddau. Mae'r cynnig hwn hefyd wedi cael ei dderbyn i gael ei ystyried ymhellach gan yr un grwpiau.



# Edrych tua'r dyfodol

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Lansio tudalennau gyrfaoedd fferylliaeth.
- Cydweithio â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ehangach i wella dealltwriaeth o sut mae rolau fferylliaeth yn newid.
- Ehangu technoleg ymgolli mewn addysg fferylliaeth.
- Cryfhau adnoddau ac offer cynllunio'r gweithlu.

Cewch wybod y diweddaraf am y blaenoriaethau hyn yn ein rhifyn nesaf!




# Cymryd rhan

Byddem wrth ein bodd yn arddangos eich gwaith! Rhannwch eich straeon, delweddau, neu astudiaethau achos o fferylliaeth ar waith.

Cysylltwch â ni ar HEIW.pharmacyworkforce@wales.nhs.uk i arddangos eich gwaith mewn diweddariadau yn y dyfodol.

# Adborth

Mae eich barn, eich adborth a'ch syniadau yn eithriadol o bwysig i ni, ac rydym bob amser yn falch o glywed gennych chi. Diolch am roi o'ch amser i ddarllen y cylchlythyr hwn ac am fod yn rhan annatod o'n cymuned. Gyda'n gilydd, rydym yn mynd o nerth i nerth.

Ffurflen adborth.

Diolch am helpu i siapio
dyfodol fferylliaeth yng Nghymru